# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD ARBENNIG A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN DDYDD IAU, 1 AWST 2019 AM 10.30 A.M.

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C. J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), L. Lane (Dirprwy Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd) C. Edwards (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd), M. Godfrey (Arweinydd Tîm, Rheoli Llygredd) ac A. Brown (Swyddog Iechyd yr Amgylchedd) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac R Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod, nac yn ystod y cyfarfod.

### MATERION A OEDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

### 3. ASTUDIAETH DDICHONOLDEB ANSAWDD AER HAFODYRYNYS - CYNLLUN TERFYNOL

Ym mis Chwefror 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddyd Ansawdd Aer i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ardal i bennu opsiwn a ffefrir neu fasged o opsiynau a fyddai'n sicrhau cydymffurfiad â gwerth cyfyngedig ansawdd aer y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd ar gyfer nitrogen deuocsid yn yr amser

byrraf posibl.

Yn ei gyfarfod ar 27 Mawrth 2019 mynegodd y Cabinet bryderon cryf ynghylch y posibilrwydd y byddai trigolion yn wynebu caledi ariannol gan unrhyw broses brynu orfodol ac nad oeddent eisiau gweld teuluoedd ifanc neu bobl hŷn yn wynebu sefyllfa ecwiti negyddol. Ar ôl cwblhau proses ymgynghori cyhoeddus ar yr opsiwn 'Gwneud y Lleiafswm' ac ystyried barn Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd, ar 26 Mehefin 2019, cymeradwyodd Cabinet y cynllun terfynol a gyflwynwyd wedyn i Lywodraeth Cymru.

Cadarnhaodd Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd fod yr ymateb gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi dod i law a bod ei gynnwys yn fanwl. Nodwyd bod y Gweinidog o'r farn bod angen gwneud rhagor o waith ar yr opsiwn a ffefrir i sicrhau y byddai'r cynllun yn sicrhau cydymffurfiad â'r gwerth terfyn yn yr amser byrraf posibl ac wedi gwneud y gofynion ychwanegol canlynol:

Dylai'r opsiwn dymchwel fynd ymlaen ar unwaith ar y sail bod asesiadau a gwblhawyd hyd yma yn dangos mai hwn yw'r opsiwn mwyaf tebygol o gyflawni'r gofyniad cyfreithiol gyda gostyngiadau wedi'u modelu'n gryf mewn nitrogen deuocsid a'r potensial i ostwng yn is na'r trothwy. Fodd bynnag, dylid ymgymryd â modelu ac asesu pellach ar yr opsiwn dymchwel a mesurau cyflenwol.

Dylid ymgymryd â modelu opsiwn Parth Aer Glân ymhellach er mwyn asesu ei botensial i gyflawni'r gofyniad cyfreithiol yn fwy argyhoeddiadol.

Dylid modelu mesurau cyflenwol i gynyddu sicrwydd y gellir cwrdd â'r gofyniad cyfreithiol.

Dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fodloni'r gofynion ychwanegol cyn gynted â phosibl a phryd bynnag o fewn 7 mis calendr.

Dylid asesu crynodiadau NO2 a fesurir ar safle monitro awtomatig Hafodyrynys yn rheolaidd i sicrhau bod cynlluniau ar waith ar y trywydd iawn i sicrhau cydymffurfiad.

Cadarnhaodd swyddogion y byddai cyfarfod pellach gyda Llywodraeth Cymru yn cael ei gynnal ar 6 Awst 2019 ynglŷn â'r mesurau gofynnol gan ddweud eu bod ar y cyfan yn gyffyrddus â chynnwys y Cyfarwyddyd a'r awdurdod i ddechrau ar y dymchwel. Fodd bynnag, roedd swyddogion yn siomedig gyda barn y Gweinidog nad oedd y cynllun terfynol yn cydymffurfio'n llawn â'r Cyfarwyddyd, gan eu bod o'r farn bod y cynllun terfynol wedi cydymffurfio a gofyn i'r sefyllfa hon gael ei hadlewyrchu yn ymateb y Prif Weithredwr Dros Dro.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod Swyddogion wedi cysylltu â thrigolion naill ai dros y ffôn neu drwy lythyr a bostiwyd i'w cartrefi mewn perthynas ag ymateb y Gweinidog ac y byddai trafodaethau un i un pellach yn cael eu trefnu.

Roedd yr Arweinydd a'r Cabinet yn dymuno cofnodi eu diolch a'u gwerthfawrogiad i C. Edwards, M. Godfrey a Thîm Iechyd yr Amgylchedd am eu gwaith caled a'u hymroddiad trwy gydol y broses gymhleth ac emosiynol hon a thalu teyrnged i'w hymrwymiad a'r ffordd dosturiol y buont yn gweithio gyda thrigolion.

Diolchodd y Prif Weithredwr Dros Dro i Swyddogion yn ffurfiol am eu hymdrech ar ddarn o waith cymhleth a chaled iawn ac yn benodol, sut roeddent wedi bod yn ymwybodol iawn o'r effaith ar drigolion trwy gydol y broses gyfan.

Mewn ymateb i benderfyniad Gweinidogion Cymru ac am y rhesymau a amlinellwyd uchod, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion canlynol. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD:-

1. nodi penderfyniad Gweinidogion Cymru a chymeradwyo gweithredu'r opsiwn dymchwel yn unol â'r amserlen a nodir yn y Cynllun Terfynol;

2. Swyddogion i gychwyn trafodaethau yn unol â'r paramedrau yn y cynllun terfynol a gymeradwywyd gyda'r bwriad o sicrhau bod yr eiddo'n cael ei werthu/caffael yn wirfoddol ac i symud ymlaen gyda'r cynlluniau canlyniadol ar gyfer dymchwel ac ail-alinio'r llwybr troed a'r penderfyniad i gymeradwyo'r telerau manwl mewn perthynas â'r caffael yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro ar y cyd â'r Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd;

3. Y Cabinet i gael adroddiad pellach i gychwyn gwneud Gorchymyn Prynu Gorfodol, a fydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r dull a ffefrir o brynu eiddo trwy gytundeb er mwyn lleihau unrhyw oedi yn amserlenni'r prosiect;

4. Swyddogion i ymgymryd â modelu pellach yn unol â Chyfarwyddyd Ansawdd Aer 2019 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;

5. Y Prif Weithredwr Dros Dro i gyflwyno ymateb ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

Terfynwyd y cyfarfod am 10:45am

Cymeradwywyd a llofnodwyd eu bod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 18 Medi 2019.

____________________

CADEIRYDD